

# Llandeilo



**Pellter:** 1.64 milltir – Hygyrch am 1.53 milltir  
**Anhawster:** Hawdd  
**Amser cerdded:** 1 awr



Addas i gadeiriau olwyn, sgwteri a bygis



Mae toiledau ar y llwybr hwn wrth y fynedfa ym Mharc Dinefwr. Mae llawer o opsiynau o ran lluniaeth ym Mharc Dinefwr ac yna yng nghanol tref Llandeilo ar ddiwedd y daith ar ôl i chi ddychwelyd i'r orsaf.

Mae'r llwybr hwn yn rhoi dewis i chi rhwng taith hygyrch neu daith gerdded gyda phocedi o goetir ar ei hyd, wrth i chi fynd o'r orsaf drwy Llandeilo i safle Ymddiriedolaeth Genedlaethol Parc Dinefwr.

1

Gadewch yr orsaf drwy ochr y maes parcio a dringo'r grisiau serth sy'n rhan o Lwybr Rheilffordd Calon Cymru – cadwch lygad am y mynegbyst. Ar ben y grisiau, ewch i'r chwith a dilyn Heol Alan i gyrraedd cyffordd-T. Ewch i'r chwith yma gan fynd i fyny'r rhiw ar Stryd Rhosmaen, wedyn cymerwch y troad nesaf i'r dde ar Heol Newydd.

2

Dilynwch y ffordd hon i fyny, ac ar ben y rhiw, ewch yn syth ymlaen i Barc Penllan. Dilynwch y prif lwybr wrth iddo fynd o amgylch i'r chwith ac arhoswch ar y llwybr gwaelod gyda'r bandstand uwchben. Dilynwch y llwybr hwn wrth iddo fynd o amgylch a dechrau dringo i fyny. Cyn i'r llwybr hwn ddechrau troi i'r dde i fynd o amgylch y bandstand, dilynwch y llwybr i lawr i'r chwith i fynd i mewn i Goed Castell.

3

Rheolir y coetir hwn gan yr Ymddiriedolaeth Natur. Dilynwch y llwybr hwn i fyny ac i lawr wrth iddo eich arwain drwy'r coetir sy'n mynd i lawr i lwybr llydan is yn y pen draw. Ewch i'r dde yma a pharhau i'r dde wrth i'r llwybr hwn ddringo i fyny i gyrraedd prif lwybr Parc Dinefwr.


4

Yn hytrach na mynd ar y prif lwybr hwn, ewch ar y llwybr llai ar y chwith i barhau drwy'r pocedi o goetir sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r prif lwybr hwn. Dilynwch y llwybr hwn i'r diwedd, lle byddwch yn dod allan ar y prif lwybr. Ewch i'r chwith yma a dilyn y prif lwybr hwn wrth iddo eich arwain yr holl ffordd i fynedfa Parc Dinefwr.

Ar ôl mwynhau eich amser ym Mharc Dinefwr, ar eich ffordd yn ôl i'r orsaf, cymerwch yr amser i fynd i brif stryd fawr Llandeilo. Wrth i chi ddychwelyd i Stryd Rhosmaen, ewch i'r dde gan fynd i fyny'r rhiw a bydd hyn yn mynd â chi i'r brif ardal siopa lle mae digon o lefydd i gael lluniaeth.

Wrth ddychwelyd i'r orsaf, mae mwy o opsiynau i'w hystyried ar yr ochr arall i'r orsaf drenau. Dilynwch y llwybr sy'n eich arwain y tu ôl i'r platform ac ar draws yr afon dros y bont. Ewch i'r dde yma a dilynwch y llwybr hwn i'r pen nes i chi gyrraedd ffordd. Croeswch y ffordd hon sy'n rhoi mynediad i chi i Warchodfa Natur Coed Tregib.

Effeithir ar lwybrau gan gau llwybrau, rhwystrau a dargyfeiriadau. Os byddwch yn canfod na allwch barhau â'ch taith, ceisiwch ddod o hyd i lwybr arall neu dilynwch eich llwybr am yn ôl. Rhowch wybod i'ch awdurdod lleol am unrhyw broblemau.



Dylunio a Dartunio ©Arty Cain 2023

## Opsiwn Hygyrch

1

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gadael yr orsaf drenau drwy'r maes parcio – mae man rheilffordd hygyrch i wneud hyn os oes angen. Gadewch yr orsaf a mynd ar hyd ochr chwith Heol yr Orsaf. Dilynwch hon nes i chi gyrraedd cyffordd-T. Ewch i'r chwith yma gan fynd i fyny'r rhiw ar Stryd Rhosmaen, sef y brif ffordd drwy Llandeilo. Ychydig i fyny'r ffordd, defnyddiwch y groesfan i groesi i'r ochr arall ac yna cymerwch y troad nesaf i'r dde ar Heol Newydd.

2

Dilynwch y ffordd hon sy'n mynd i fyny'r rhiw ac o amgylch i'r dde wrth iddi droi'n Heol Caerfyrddin. Defnyddiwch fan croesi diogel ar y darn hwn i fynd i ochr arall y ffordd. Ar ôl ychydig, ewch drwy fynedfa Parc Dinefwr ar y chwith gyferbyn â mynedfa Heol Diana. Rydych chi nawr ar y prif lwybr a fydd yn mynd â chi at fynedfa Parc Dinefwr – does dim llwybr symudedd diogel felly byddwch yn ofalus gan y bydd ceir yn eich pasio ar y llwybr hwn.



TRAFNIDIAETH CYMRU  
TRANSPORT FOR WALES

